**Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn**

**7/6/22**

**Presennol: Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Huw Antur, Dewi Wyn Jones, Alwyn Roberts, Huw P Roberts

Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)

**Cyhoedd:** Carwyn Siddall (trwy zoom) am ran o'r cyfarfod, yn gwirio'r dechnoleg.

2363 Croesawyd pawb gan y Cadeirydd a ddiolchodd i'r cyn-gadeirydd am ei ymroddiad a'i waith yn ystod y flwyddyn a aeth heibio. Diolchodd hefyd i Carwyn Siddall ac Ann Jones am eu hymdrechion i gael y ddarpariaeth newydd i weithio. Gwirfoddolodd Huw Antur i baratoi'r Neuadd ar gyfer y cyfarfod nesaf. Bydd angen rhywun i baratoi a chadw'r offer technegol hefyd.

2364 Derbyniwyd Ymddiheuriadau Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Heledd Jones, Rhodri Jones, Euros Roberts

2365 Derbyniwyd datganiad o fuddiant gan Huw Antur yn ystod y cyfarfod pan drafodwyd Llwybr y Cei.

2366 **Adroddiad y Clerc**

i. 2362i Cronfa perchnogaeth Gymunedol – cais am brosiect. Nodwyd fod y cynnig ar gael.
ii. 2362ii Gohebiaeth am yr Eglwys: bydd Mr Plane yn cysylltu.
iii. 2362iv Ymholiadau lleol am effaith y Triathlon ar fusnesau: cyflëwyd casgliadau i'r Trefnwyr a rhannwyd awgrymiadau am gynnal digwyddiad mor drefnus â phosib.
iv. 2362v Cyfarfod i drafod mastiau telegyfathrebu gyda Beryl Hughes Griffiths a Heledd Jones, Mabon ap Gwynfor a chynrychiolydd y Llywodraeth/Vodaphone. Cyflëwyd dymuniad i symud ymlaen i wella'r ddarpariaeth yng Nghwm Cynllwyd.
v. Mynychodd y Clerc gyfarfod gyda'r Heddlu a chafwyd y cyfle i drafod cyfathrebu'n lleol, a'r angen i ymateb yn unionsyth os oes arwyddion pobl yn hel i gynnal "rave". Cytunwyd i anfon at y Rhingyll i fynegi mor werthfawr oedd y cyfarfod ac i fynegi dymuniad i barhau.

2367 **Adroddiad Cynghorydd Gwynedd**. Soniodd y Cynghorydd Alan Jones Evans ei fod yn cyfarfod gyda Swyddog i drafod uwchraddio'r llecyn chwarae ym Maesypandy i gynnwys creu cegin fwd, gwella'r fynedfa, dynodi safleoedd parcio penodol ar gyfer rhiant a phlentyn. Mae'r cwmni trwsio matiau wedi tynnu allan o'r Cytundeb ac mae'r Swyddog yn chwilio am gwmni arall i wneud y gwaith.
Bydd yn cyfarfod yn fuan gyda Pheiriannydd o Gyngor Gwynedd i drafod yr ardal ail gylchu ar waelod ffordd Weirglodd Wen.
Mynegodd ddiolch i Dwr Cymru am orffen y gwaith yn daclus wrth y Gilfach Goffa.

Mae Cyngor Gwynedd yn trafod gosod arwydd wrth droi mewn i Lanuwchllyn a fydd yn cynnwys nodi'r pentref fel man cychwyn Urdd Gobaith Cymru. Mae NMWTRA yn trafod dyluniad ac yn gwneud asesiad risg.
Mae Cyngor Gwynedd wedi sicrhau fod y goleuadau ar y cerfluniau yn gweithio, ac maent yn barod i osod yr amser goleuo yn ôl dymuniad y Cyngor.
Adroddodd am y giang cymunedol a fydd yn ymweld â'r ardal i wneud gwaith tacluso tu allan i'r drefn arferol. Bydd cyfle i'r Cyngor Cymuned roi gwybod am ddiffygion trwyddo ef neu'r Clerc.
Diolchwyd i'r Cynghorydd am ei waith a llongyfarchwyd ef ar gael ei ethol yn ddi-wrthwynebiad i Gyngor Gwynedd.

2368 Ystyriwyd materion lleol y Cynghorwyr:

a. Bu Arwel Lloyd Jones yn trafod panel gwybodaeth yn yr orsaf. Cafodd Alwyn Roberts hefyd gyfle i drafod a diolchwyd fod hysbysebion ar gefn y panel gwybodaeth erbyn hyn yn ddwyieithog.
b. Nodwyd bod angen tocio ar Lwybr Tegid. Mae derbyn dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith yn fater brys i'r Is-bwyllgor asedau ei ystyried. Dywedodd Huw Antur y byddai'n trafod ail doriad gydag Urdd Gobaith Cymru. Dywedodd y Cynghorydd Alan Jones Evans y byddai'n holi a fyddai'r giang cymunedol yn gallu bod o ddefnydd i wneud gwaith cynnal ar y llwybr. (Datganodd Huw Antur ddiddordeb yn y pwnc hwn.)

2369 Nid oedd cyfarfod o Bwyllgor Ardal Un Llais Cymru wedi digwydd.

2370 Nid oedd Adroddiadau'r Cynghorwyr nac Is-bwyllgorau. Cytunwyd fod angen i'r is-bwyllgorau gyfarfod yn fuan i fynd i'r afael a'u gwaith. Disgwylir i Gadeirydd llynedd pob is-bwyllgor gynnull y cyfarfod; bydd y Clerc yn anfon copi o gylch gorchwyl at bob Cadeirydd.

2371 Derbyniwyd Adroddiad cynrychiolwyr Partneriaeth Penllyn. Dywedodd Huw Antur fod y cwmni yn gwneud llawer gyda gweithgareddau llesiant ar hyn o bryd. Maent hefyd yn cyfrannu tuag at greu Cynllun Datblygu i'r ardal. Mae aelodau Cwmni Pum Plwy Penllyn yn mynd i ymweld â Bethesda lle mae gwaith arloesol yn cael ei wneud gyda Chymunedau Mentrus.

2372 Derbyniwyd manylion materion ariannol. Cymeradwywyd y taliadau:

- £240.00 Trwsio lloches bws y Lon a wal maes parcio'r fynwent
- £1000.00 -cyfraniad i'r Neuadd Bentref
- Cyflogau
- CThEM
- £62.87 nwyddau'r toiledau
- £95.00 gwaith trwsio yn y toiledau
- Cytundeb Glanhau'r toiledau

Nid yw’r Ffurflen Flynyddol wedi dychwelyd oddi wrth yr Archwilydd Mewnol a bydd y SAC yn gwneud trefniadau ar gyfer ei chyflwyno i’r Archwilydd Allanol yn dilyn ystyriaeth ohoni yn y cyfarfod nesaf.

Derbyniwyd un dyfynbris am y gwaith o symud y giât wrth Lwybr y Cei. Diolchwyd i’r SAC am ei gwaith.

2373 Nid oedd Ceisiadau Cynllunio.

2374 Ystyriwyd Gohebiaeth:

- **i.** Cyngor Gwynedd: Ymgynghoriad Teithio Llesol. **Anogwyd pawb i ymateb i’r Ymgynghoriad gan ei bod yn sôn am ymestyn Llwybr Tegid.**
- ii. Cyngor Gwynedd: Cytunwyd gyda’r argymhelliad o enwebu’r Cynghorydd Richard Parry Hughes o Lannor fel Aelod Cymunedol ar Bwyllgor Safonau Cyngor Gwynedd.
- iii. Cyngor Gwynedd: Anghenion Tai / Arolwg Tai Gweigion - e-bostiodd y Clerc wybodaeth o’r Cynllun Ardal wrth ymateb i’r Arolwg.
- iv. Llywodraeth Cymru: Nodwyd derbyn Cymru'r Dyfodol: y cynllun cenedlaethol 2040.
- v. Parc Cenedlaethol Eryri: Nodwyd derbyn diweddariad ar Gartrefi Modur yng Ngwynedd.
- vi. Awdit Cymru: cytunodd y Cadeirydd i ymateb i arolwg o **gydnerthedd cymunedol**
- vii. Derbyniwyd diolch am gyfraniad oddi wrth Llên y Llannau a’r Neuadd Bentref.
- viii. Rhoddwyd caniatâd i Gymdeithas Hanes Meirionnydd ac i fynychwyr Cynhadledd yng Nglan-llyn ddefnyddio’r maes parcio wrth y fynwent.

2375 Anogwyd yr is-bwyllgorau i gyfarfod o fewn y mis ac i adrodd nôl yn y cyfarfod nesaf.

Dyddiad a lleoliad y cyfarfod nesaf: 5/7/2022 yn y Neuadd Bentref